OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2278 (Cy.168)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Cod Ymddygiad (Cyflogeion Anghymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *21 Mehefin 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *28 Gorffennaf 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 82(8) a (9) a 105(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cod Ymddygiad (Cyflogeion Anghymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 28 Gorffennaf 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "athro neu athrawes" ("*teacher*") yw person a gyflogir fel athro neu athrawes gan Awdurdod Addysg Lleol;

ystyr "awdurdod tân" ("*fire authority*") yw awdurdod sydd am y tro wedi'i gyfansoddi'n awdurdod tân o dan y Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947(**2**) neu unrhyw gynllun cyfuno a wnaed odani;

ystyr "diffoddwr tân" ("*firefighter*") yw person sy'n aelod o frigâd dân a gynhelir gan awdurdod tân ac sydd â thelerau gwaith sy'n cynnwys rhwymedigaeth i fynd i'r afael ag ymladd tanau o fewn ystyr adran 38(1) o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000;

**Disgrifiadau o gyflogeion**

**3.** Mae'r disgrifiadau canlynol o gyflogeion yn cael eu pennu at dibenion adran 82(8) o'r Ddeddf —

(**1**) 2000 p.22.
(**2**) 1947 p.41.

(a) diffoddwr tân, a

(b) athro neu athrawes.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis Thomas*
21 Mehefin 2001 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf") yn sefydlu fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae adran 82(2) o'r Ddeddf yn darparu y caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy orchymyn, gyhoeddi cod ynghylch yr ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth weithwyr cyflogedig penodol mewn awdurdodau perthnasol yng Nghymru ("y cod ymddygiad"). Awdurdodau perthnasol yw cynghorau cymuned, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac awdurdodau Parc Cenedlaethol ond nid awdurdodau'r heddlu.

O dan adran 82(8) o'r Ddeddf, caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu'r disgrifiadau o weithwyr cyflogedig nad yw'r cod ymddygiad yn gymwys iddynt.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r disgrifiadau hynny o weithwyr cyflogedig, sef athrawon a diffoddwyr tân sy'n weithwyr cyflogedig i awdurdodau perthnasol yng Nghymru.